

Opsiwn	Amrywiaeth Cynefinoedd	Iechyd Pridd	Ansawdd Dŵr	Cynhyrchio n Pren	Bwyd / Porthian t	Pren	Bioddiogelw ch	Lles Anifeiliaid	Cynhyrchu Da Byw	Newid yn yr Hinsawdd
- Cloddiau mawr	✓✓✓	✓✓	✓✓	✓	✓✓	✓	✓✓✓	✓✓✓	✓✓✓	✓✓
- Parcdir	✓	✓	✓	✓	✓	✓	-	✓	✓✓	✓✓
- Grwpiau o goed mewn caeau	✓✓	✓✓	✓✓	✓✓	✓✓	✓✓	-	✓✓	✓✓	✓✓
- Mewnlenwi corneli caeau	✓✓	✓	✓	✓✓	✓✓	✓✓	✓✓	✓✓	✓✓	✓✓
- Porfa Goediog/Safana Cymreig	✓✓✓	✓✓	✓✓✓	✓✓	✓✓	✓✓	-	✓✓✓	✓	✓✓✓
- Coetir canopi caeedig	✓✓✓	✓✓✓	✓✓✓	✓✓	✓	✓✓✓	✓	-	-	✓✓✓
- Tyfu cymunedol/ rhandiroedd	✓	✓	✓	-	✓✓✓	-	✓	-	-	✓
- Perllan	✓✓	✓	✓	✓✓✓	✓✓✓	-	✓	-	-	✓

Cloddiau mawr

- Mae strwythurau â gwreiddiau dwfn yn helpu ymdreiddiad dŵr ac yn lleihau erydiad
- Maent yn annog priddoedd iach sy'n storio mwy o garbon, ac yn fwy ffrwythlon
- Mae newid yn yr hinsawdd yn golygu mwy o dywydd sy'n eithafol o gynnes neu oer a fydd yn effeithio ar gynhyrchiant
- Maent yn darparu cysgod sy'n gallu cynyddu cyfraddau goroesi ŵyn drwy leihau gwyntoedd oer a hypothermia
- Maent yn darparu cysgod i leihau straen gwres ymysg da byw, gan gynyddu cynhyrchiant
- Gall llai o amodau llaith ar ymylon caeau leihau cloffni ymysg da byw
- Gwych ar gyfer bioddiogelwch – creu rhwystr sy'n lleihau cysylltiad rhwng anifeiliaid a'r risg o drosglwyddo clefyd
- Gwych ar gyfer bioamrywiaeth, gan greu coridorau er mwyn i rywogaethau allu symud ar draws y dirwedd
- Maent yn cynhyrchu porthiant (ar gyfer da byw), bwyd (ffrwythau) a chynhyrchion pren (ar gyfer crefftau gwledig)



Parcdir

- Mae parcdiroedd â choed aeddfed, coetir hynafol a phorfeydd yn un o nodweddion tirwedd hanesyddol Dyffryn Tywi
- Mae coed parcdiroedd ymhlith yr organebau byw hynaf yn y DU
- Wedi'u cysylltu'n draddodiadol â phlastai, mae Dinefwr yn enghraifft wych
- Cynefin sy'n mynd yn fwyfwy prin a dan fygythiad
- Wedi'u rheoli'n draddodiadol ar gyfer anifeiliaid pori
- Maent yn darparu cilfachau ar gyfer adar, ystlumod, infertebratau a phlanhigion prin
- Mae strwythurau â gwreiddiau dwfn yn helpu ymdreiddiad dŵr ac yn lleihau erydiad
- Maent yn annog priddoedd iach sy'n storio mwy o garbon, ac yn fwy ffrwythlon
- Maent yn darparu cysgod i leihau straen gwres ymysg da byw, gan gynyddu cynhyrchiant



Grwpiau o goed mewn caeau

- Gallant helpu i liniaru tymereddau eithafol, gan roi lloches i dda byw yn y gaeaf a chysgod yn yr haf
- Mae coed yn helpu i gynyddu ffrwythlondeb pridd, mae pridd iach yn fwy cynhyrchiol ac yn dda o ran storio carbon
- Maent yn creu ynysoedd o gynefin yn y dirwedd
- Mae coed iach yn darparu cyfleoedd ar gyfer bywyd gwyllt, cilfachau i nythu, cysgod a bwyd
- Maent yn cynhyrchu porthiant (ar gyfer da byw), bwyd (ffrwythau) a chynhyrchion pren (ar gyfer adeiladu, tanwydd a chrefftau gwledig)



Mewnlenwi corneli caeau

- Yn aml, nid yw peiriannau modern yn gallu cyrraedd corneli caeau, mae sgwario ardaloedd sydd i'w haredig yn cyflymu gwaith amaethu
- Mae plannu mewn corneli nad ydynt yn cael fawr o ddefnydd yn golygu llai o effaith ar ardaloedd cynhyrchiol, gan hefyd gynyddu gorchudd coed
- Mae rhoi'r gorau i gynhyrchu mewn ardaloedd llai cynhyrchiol yn lleihau'r defnydd o wrtaith a phlaleiddiaid drud
- Mae coed yn arafu dŵr ffo gan leihau llifogydd a gwaddodi, maen nhw'n amddiffyn cyrsiau dŵr rhag plaleiddiaid a maetholion
- Mae'n creu cynefin ar gyfer bioamrywiaeth, gan ddarparu cyfleoedd ar gyfer nythu, bwyd, a chysgod, ac yn cysylltu cynefinoedd gwerthfawr
- Maent yn cynhyrchu porthiant (ar gyfer da byw), bwyd (ffrwythau) a chynhyrchion pren (ar gyfer adeiladu, tanwydd a chrefftau gwledig)



Porfeydd coediog

- Mae porfeydd coediog yn system rheoli tir hanesyddol ac yn gynefin sy'n dod yn fwyfwy prin a dan fygythiad
- Mae coetir agored gyda choed gwasgaredig yn darparu cysgod a phorthiant ar gyfer anifeiliaid pori
- Maent yn cynyddu ffrwythlondeb pridd, mae pridd iach yn fwy cynhyrchiol ac yn dda o ran storio carbon
- Maent yn cynhyrchu porthiant (ar gyfer da byw), bwyd (ffrwythau) a chynhyrchion pren (ar gyfer adeiladu, tanwydd a chrefftau gwledig)
- Mae infertebratau, planhigion, adar a ffyngau arbenigol yn cael eu cysylltu â'r cynefin hwn



Coetir canopi caeedig

- Mae'n amsugno carbon, sy'n hollbwysig o ran mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd
- Mae'n darparu amrywiaeth o wasanaethau ecosystemau, yn lliniaru yn erbyn llifogydd, yn hidlo dŵr a phriddoedd, yn cael gwared ar lygryddion a maetholion cyn iddynt gyrraedd afonydd, mae gwreiddiau coed yn atal erydiad ar lannau afonydd
- Mae'n darparu mannau gwyrdd heddychlun i bobl allu hamddena, gwneud ymarfer corff ac addysgu
- Mae'n cynhyrchu pren a chynhyrchion eraill
- Mae'n lleihau ein dibyniaeth ar fewnforion o wledydd sydd â safonau llai cynaliadwy ac yn lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr
- Mae coetiroedd yn cynhyrchu cynhyrchion ar wahân i bren, gan gynnwys:
 - Anifeiliaid hela gwyllt a rheoledig
 - Aeron, ffwng a phlanhigion bwyadwy
 - Planhigion meddyginiaethol
 - Rhisgl, resinau, dail a hadau
 - Llifynnau a deunyddiau crefft



Tyfu cymunedol/rhandiroedd

- Mae'n darparu bwyd iach, o darddiad lleol ar gyfer pobl leol
- Crëir ymdeimlad o gymuned pan fydd pobl yn cymryd rhan mewn gweithgareddau tyfu bwyd ac yn cyfrannu at ddiogelwch bwyd
- Mae'n lleihau gwastraff bwyd drwy gompostio, yn lleihau deunydd pacio bwyd, ac yn cyfrannu at yr agenda dim gwastraff
- Gall helpu i liniaru newid yn yr hinsawdd, mae bwyd a gynhyrchir yn lleol yn lleihau milltiroedd awyr yn sylweddol
- Mae mannau tyfu cymunedol yn cynnig lloches pwysig i fywyd gwylt



Perllan

- Mae'n cynnig cyfle i bobl ailgysylltu â natur a tharddiad eu bwyd
- Mae'n darparu canolbwynt ar gyfer cymunedau
- Collwyd amrywogaethau a thraddodiadau unigryw dros y blynyddoedd diwethaf wrth i boblogrwydd perllannau ddirywio
- Lleoedd i bobl ddysgu sgiliau traddodiadol fel impio a thocio
- Ar ôl ei sefydlu, mae'n darparu cnwd blynyddol o ffrwythau gyda llai o filltiroedd awyr
- Mae'n creu cynefinoedd ac adnoddau ar gyfer bywyd gwylt (er enghraifft pryfed peillio)
- Mae'n cyfrannu at iechyd pridd

